Cyngor Tref
Rhuddlan
Town Council

# DEDDF AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016

## ADRAN 6 DYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH a CHYDNERTHEDD ECOSYSTEMAU

## DATGANIAD POLISI A CHYNLLUN GWEITHREDU

### 1. Cefndir

Mae Cyngor Tref Rhuddlan yn cwmpasu ardal sy'n cynnwys afon Clwyd, Castell Rhuddlan, ffermdir a gwarchodfa natur. Mae'r cyngor yn gyfrifol am ddau gae chwarae. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i wella bioamrywiaeth yn Rhuddlan a'r ardal gyfagos.
Mae'r Cynllun hwn yn cydnabod ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n nodi: "rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau".

Mae unrhyw gamau gweithredu yn rhan o nod ehangach sy'n cydnabod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y dylai'r Cyngor Cymuned ddarparu ar gyfer "economi lewyrchus, amgylchedd iach a chydnerth a chymunedau bywiog a chydlynus ".

### 2. Camau a gwblhawyd yn 2024/2025

2.1 Roedd tri chynghorydd yn aelodau o Warchodfa Natur Rhuddlan er mwyn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhedeg y warchodfa.
2.2 Rhoddwyd cymorth ariannol i Grŵp Cymunedol Rhuddlan er mwyn prynu amrywiaeth i blanhigion mewn cynwysyddion i'w gosod ledled y dref i ddenu pryfaid.
2.3 Nodwyd safleoedd pellach ar dir sy'n eiddo i'r cyngor lle gellid creu ardaloedd blodau gwyllt.
2.4 Ystyriwyd bioamrywiaeth wrth ystyried pob cais cynllunio.
Cymorth a roddwyd i brosiect ailwylltio Cyngor Sir Ddinbych mewn gwahanol leoliadau yn Rhuddlan.
2.5. Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol Pwyllgor Bioamrywiaeth Cyngor Tref Rhuddlan
2.6 Mae'r cyngor llawn wedi mynychu hyfforddiant Bioamrywiaeth i gynghorwyr a ddarparwyd gan Wasanaethau Cefn Gwlad Cyngor Sir Ddinbych.

Fel ymgynghorai statudol, mae'r cyngor yn ystyried effaith pob cais cynllunio ar fioamrywiaeth. Mae hyn yn unol â Deddf Polisi Cynllunio (Cymru) 2016 sy'n nodi: "rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hynny'n golygu na ddylai datblygu arwain at golllediad mawr i gynefinoedd na phoblogaethau o rywogaeth, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddo esgor ar fanteision net i fioamrywiaeth".

Bydd y cyngor yn gwneud gwelliannau pellach i'r cynllun ar gyfer 2025/2026 gan ddefnyddio templed adran 6.

| Amcan | Cam gweithredu | Dyddiad arfaethedig | Adrodd/Monitro yn 2024 |
|---|---|---|---|
| **Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel** | Cynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r Pwyllgor Bioamrywiaeth, adolygu a chyhoeddi'r cynllun 2025/26 | Cyfarfodydd chwarterol | |
| | Darparu rhagor o hyfforddiant bioamrywiaeth i gynghorwyr | Ddwywaith y flwyddyn | |
| | Ystyried gwreiddio bioamrywiaeth yn y prosesau wrth ystyried ceisiadau cynllunio / caffael/adroddiadau i'r cyngor | Parhaus | Parhaus – rhoi sylwadau ar geisiadau cynllunio i'r perwyl na fydd effaith niweidiol ar fioamrywiaeth ganlyniad i gais cynllunio |
| **Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well** | Datblygu a chytuno ar strategaeth i reoli budd natur | Diwedd Ch4/2025 | |
| | Annog pobl i gofnodi rhywogaethau | Diwedd Ch4/2025 | Cynnwys y tîm cefn gwlad a'r ysgol, a chynnwys g adar |
| | Hybu cysylltiadau â phrosiectau cadwraeth lleol | Parhaus | 2 chynghorydd yn gysylltiedig â'r Warchodfa Natu<br>Cadwch Gymru'n Daclus /Gwasanaethau Cefn Gw /Ysgol/Clwb Bowlio /Grŵp Cymunedol /Rhandiro |
| **Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd** | Rheoli daliadau tir er budd natur | Parhaus | |
| | Hybu cysylltiadau â phrosiectau cadwraeth lleol | Parhaus | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Hybu gwelliannau bioamrywiaeth ymhlith preswylwyr preifat (e.e. plannu er budd peillwyr, blychau adar ac ystlumod) a chael pobl i ymuno â chynlluniau fel rhodfa draenogod | Parhaus | Trwy'r drefn gynllunio |
| | Creu pwll dŵr tymhorol, gwlyptir a gardd blodau gwyllt yng Nghae'r Llyngesydd | Diwedd Ch2/2026 | Gwahodd gwesteion/stondin/preswylwyr neu yn digwyddiad ganol haf |
| | Cefnogi camau cymunedol i weithredu ar newid hinsawdd | Parhaus | |
| | Creu ardal sy'n denu gwenyn yng Nghae'r Llyngesydd drwy blannu peillwyr | Diwedd Ch1/2026 | |
| | Cefnogi camau i fynd i'r afael â'r bygythiadau bioamrywiaeth allweddol, gall hyn gynnwys, rheoli rhywogaethau estron goresgynnol, atal colli a/neu ddiraddio cynefinoedd | Yn ôl yr angen | |
| | Cysylltu â CSDd a Chynghorau Tref/Cymuned eraill | Parhaus | |
| | Rhannu gwybodaeth a thystiolaeth gyda grwpiau ac elusennau cadwraethol lleol | Rhannu'r cynllun gweithredu | |
| **Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro** | Hyrwyddo cynlluniau cofnodi amgylcheddol cenedlaethol, fel 'Gwylio adar yr ardd/Big garden birdwatch', 'Cyfrif glöynnod byw/big butterfly count' | Parhaus | |
| | Cyhoeddi Cynllun Bioamrywiaeth Adran 6 | Wedi'i gwblhau | |
| | Penodi Swyddog arweiniol neu Hyrwyddwr | Wedi'i gwblhau | |
| | Sefydlu Pwyllgor Amgylchedd/Bioamrywiaeth i roi camau gweithredu ar waith | Wedi'i gwblhau | |
| | Amserlennu diweddariadau am gynnydd | Wedi'i gwblhau | |
| **Rhoi fframwaith llywodraethu a** | Amserlennu adolygiad blynyddol o'r cynllun | Diwedd Ch1/2026 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.** | | | |

**Cymeradwywyd gan y cyngor llawn ar 8/05/2025 – I'w adolygu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, mis Mai 2026**.